LANEq317

# Cyfrannu at ddylunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at ddylunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio. Dylech allu gwneud y gwaith hwn gyda cheffylau â lefelau amrywiol o ffitrwydd, hyd at ac yn cynnwys ffitrwydd rasio, a chydag amcanion hyfforddiant gwahanol. Dylai'r amcanion gynnwys naill ai datblygiad corfforol neu seicolegol.

Dylech allu adnabod lefel ffitrwydd presennol y ceffyl, man gorffen gofynnol y rhaglen, a dylunio a gweithredu rhaglen hyfforddiant i gyrraedd y man gorffen.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfrannu at ddylunio rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio i fodloni'r safonau perfformiad gofynnol
2. pennu cyflwr a pherfformiad presennol ceffylau rasio gan ddefnyddio dulliau dilys a dibynadwy
3. dewis gweithgareddau hyfforddiant sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer datblygiad llwyddiannus ceffylau rasio
4. briffio'r personél perthnasol ar agweddau priodol y rhaglenni hyfforddiant a'r gweithgareddau
5. cynyddu'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael tra'n gweithredu'r rhaglenni hyfforddiant
6. amrywio'r rhaglenni hyfforddiant, fel y bo angen, i gyd-fynd â'r ceffylau rasio, tra'n parhau i gyflawni'r amcanion
7. monitro'r rhaglenni hyfforddiant
8. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i osod amcanion wrth ddylunio rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio
2. sut i sefydlu cofnodion perfformiad ar gyfer ceffylau rasio unigol
3. sut i asesu cyflwr ceffylau rasio, yn cynnwys y cyflwr corfforol a seicolegol, a ffitrwydd
4. sut i adnabod ac asesu effeithiau problemau corfforol ac ymddygiadol ar geffyl rasio a'i agwedd tuag at waith
5. y rhesymau dros brofi gwaed a phwysigrwydd cyswllt â'r llawfeddyg milfeddygol
6. arwyddocâd adnabod y pwysau corff gorau posibl a'r defnydd o'r pontydd pwyso
7. dulliau hyfforddiant amgen, yn cynnwys; cerddwyr ceffylau a phyllau nofio
8. sut i ymgorffori gwaith ffordd, gwaith cyflym, gwaith ffitrwydd fel mater o drefn a hyfforddi i'r rhaglenni hyfforddiant
9. effaith natur, oed a phrofiad ar ymddygiad ceffylau rasio
10. effeithiau ymarfer corff ar ddatblygiad corfforol a seicolegol ceffylau rasio
11. sut i fonitro cynnydd ceffylau rasio
12. pwysigrwydd cyflymder, pellter, goleddf ac arwynebedd amrywiol mewn rhaglenni hyfforddiant
13. sut i ddefnyddio adnoddau wrth weithredu rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys; amser, cyfleusterau, cyllid, llafur
14. effeithiau cyflwr cae ac arwynebedd ar y ceffylau rasio
15. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
16. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Dylunio a gweithredu rhaglen hyfforddiant ar gyfer ceffylau â lefelau ffitrwydd amrywiol, hyd at ac yn cynnwys ffitrwydd rasio, a chydag amcanion hyfforddiant gwahanol

Hyfforddi yn unol â'r amcanion canlynol:

- datblygiad corfforol
- datblygiad seicolegol

Hyfforddi gan ddefnyddio'r gweithgareddau canlynol:

- gwaith ffordd
- gwaith cyflym
- gwaith ffitrwydd fel mater o drefn
- hyfforddi

LANEq317

Cyfrannu at ddylunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer ceffylau rasio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq317 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ceffylau rasio; hyfforddiant |